

Mai 2017

Etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017: Esiamplau o rannu gwariant rhwng y blaid a'r ymgeisydd

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheolau ar rannu gwariant yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017.

Efallai bydd angen i chi rannu costau rhai eitemau gwariant, fel bod y blaid a'r ymgeisydd yn cofnodi ac adrodd y gwerth y gwariwyd ar bob ymgyrch yn gywir.

Mae'r daflen ffeithiau yn cynnwys esiamplau o rannu gwariant yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017. Gallwch ddod o hyd i esiamplau cyffredinol eraill yn ein

papur arbenigol ar rannu gwariant [yma](#).

Rhannu gwariant rhwng plaid ac ymgeisydd

Weithiau cyfeirir at wariant plaid ac ymgeisydd fel gwariant 'lleol' a 'cenedlaethol', ond mae'n well eu hystyried fel gwariant 'plaid' ac 'ymgeisydd'. Nid yw pob gwariant yn lleol yn wariant ymgeisydd yn awtomatig, mae'n bosib bod gwariant pleidiau yn digwydd yn genedlaethol.

Gan fod gwariant plaid yn cael ei ddiffinio fel unrhyw wariant ymgyrchu heblaw gwariant ymgeisydd, dylech wastad ystyried yn gyntaf p'un a bod unrhyw wariant yn wariant ymgeisydd.

Asesiad gonest

Os ydych chi'n penderfynu bod angen rhannu gwariant, dylech sicrhau eich bod yn gwneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, y gyfran o'r gost y gellir ei briodoli i bob math o wariant ymgyrchu.

Mae'n bosib y byddwch yn gwneud datganiad ffug os ydych yn datgan bod eich cofnod gwariant yn gyflawn a chywir.

Dylai'r esiamplau isod eich helpu i ddeall sut y dylech wneud eich asesiad wrth rannu gwariant plaid ac ymgeisydd ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU 2017.

Os nad ydych chi'n siŵr os yw gwariant yn wariant ymgeisydd neu blaid, dylech gysylltu â ni.

Esiampl 1:

Mae'r blaid yn rhentu swyddfa yng nghanol y dre am £400 y mis i gydlynu ymgyrch y blaid, sydd hefyd yn rhoi cefnogaeth i ymgeisydd lleol y blaid. Yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol, mae'r ymgeisydd yn defnyddio'r swyddfa fel eu pencadlys ymgyrchu, tra bod staff arall yn parhau gyda gweinyddiaeth gyffredinol ymgyrch y blaid.

Os mai prif ddiben gweithgarwch y swyddfa yw hyrwyddo'r ymgeisydd, dylid adrodd costau llawn y swyddfa ar gyfer y cyfnod perthnasol fel gwariant ymgeisydd. Os na, dylech ystyried y gyfran o'r rhent a gwasanaethau eraill sy'n cael eu defnyddio gan ymgyrch yr ymgeisydd a'r gyfran a ddefnyddir gan y blaid fel rhan o'i ymgyrch. Dylid rhannu costau'r swyddfa.

Esiampl 2:

Caiff taflen a hysbyseb mewn papur newydd lleol yn hyrwyddo polisïau'r blaid ar iechyd eu dosbarthu mewn nifer o etholaethau. Nid oedd y daflen na'r hysbyseb yn y papur newydd lleol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ymgeiswyr na materion lleol. Dylid trin cost gyfan y daflen a'r

hysbyseb papur newydd lleol fel gwariant plaid.

Fodd bynnag, os mai prif ddiben y daflen a'r hysbyseb yn y papur newydd lleol yw hyrwyddo'r ymgeiswyr yn yr etholaethau perthnasol, dylid trin y deunydd fel gwariant ymgeisydd. Mae'r un egwyddor gyffredinol yn berthnasol wrth ymgyrchu ar-lein.

Esiampl 3:

Mae canfaswyr sy'n mynd o ddrws i ddrws yn hyrwyddo'r ymgeisydd yn cael siacedi gydag enw'r blaid ar y cefn i'w gwisgo. Er mai enw'r blaid sydd ar y siacedi, mae'r gwariant mewn perthynas â chanfasio, sydd i hyrwyddo'r ymgeisydd. Dylid adrodd cost llawn y siacedi fel gwariant ymgeisydd.

Esiampl 4:

Caiff llythyr neu e-bost gan arweinydd y blaid yn gosod safbwynt polisi'r blaid ar agweddau o drafodaethau'r DU wrth adael yr UE ei anfon at bleidleiswyr yn etholaethau targed y blaid neu bleidleiswyr y mae data pôl y blaid yn nodi sydd â barn gref ar y mater.

Er ystyrir bod y deunydd wedi'i dargedu tuag at bleidleiswyr penodol, yn ôl lleoliad neu fel arall, os mai prif ddiben y deunydd yw cyfathrebu polisïau'r blaid yn hytrach na barn ymgeiswyr unigol, mae hyn yn wariant plaid.

Fodd bynnag, os yw'r deunydd yn cynnwys barn yr ymgeiswyr, bydd angen i chi ystyried prif bwrpas yr ohebiaeth. Mae'n debygol bod angen i holl neu beth cost y deunydd gael ei briodoli i'r ymgeisydd. Byddai maint y priodoli yn dibynnu ar union natur y deunydd.

Esiampyl 5:

Mae plaid wleidyddol yn talu am ymgyrch hysbysebu ar blatfform cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i dargedu at ddefnyddwyr mewn ardal neu ardaloedd daearyddol penodol.

Fel gydag unrhyw fath o weithgarwch ymgyrchu, os yw'r blaid yn talu am hysbysebu sy'n hyrwyddo ymgeisydd, yna dylid adrodd canran o gost yr ymgyrchu fel gwariant plaid a chanran fel gwariant ymgeisydd. Mewn rhai achosion dylid adrodd y gost llawn fel gwariant ymgeisydd. Bydd hyn yn dibynnu ar beth sy'n cael ei hyrwyddo yn yr hysbyseb. Os yw hysbyseb yn cyfeirio at y blaid yn genedlaethol yn unig, yna dylai'r blaid adodd yr hysbysebu.

Esiampyl 6:

Mae plaid yn defnyddio coets yn ystod ymgyrchu i fynd ag arweinydd y blaid a/neu uwch swyddogion o gwmpas etholaethau. Mae'r bobl sy'n teithio yn traddodi areithiau, yn cynnal cynadleddau i'r wasg ac yn ymweld â busnesau lleol.

Os mai prif ddiben y gweithgarwch yw bod uwch swyddogion y blaid yn hyrwyddo'r blaid trwy fod y blaid yn ymddangos yn y cyfryngau, bydd hyn yn wariant plaid.

Fodd bynnag, lle bod unrhyw un yn cael eu cludo i un neu fwy o etholaethau ac yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgyrchu ar gyfer yr ymgeisydd (e.e. mynd o ddrws i ddrws neu'n canfasio ar gyfer yr ymgeisydd) bydd angen i chi ystyried y prif ddiben. Mae'n debygol bod angen i holl neu beth o gost yr ymweliad gael ei drin fel gwariant i hyrwyddo'r ymgeisydd. Byddai maint y priodoli yn dibynnu ar union natur y gweithgarwch.

Sut allwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y dogfennau yr ydym wedi awgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld yr holl ganllawiau a'r adnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost isod.

Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Cymru: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ewch i

www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni:

pef@electoralcommission.org.uk